**Y PWYLLGOR ARCHWILIO** **AC(2) 04-04(min)**

**COFNODION**

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | 6 Mai 2004 | |
| **Amser:** | 9.30am tan 12.15pm | |
| **Lleoliad:** | Ystafelloedd Pwyllgora 3 & 4, Bae Caerdydd | |

| | |
|---|---|
| **Aelodau** | **Yn bresennol** |
| Janet Davies (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| Leighton Andrews | Y Rhondda |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Tamsin Dunwoody-Kneafsey | Preseli Sir Benfro |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Denise Idris-Jones | Conwy |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| David Melding | Canol De Cymru |
| **Tystion** | |
| Michael Houlihan | Cyfarwyddwr Cyffredinol, Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru |
| Eurwyn William | Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru |
| **Swyddogion** | |
| Syr John Bourn | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Gillian Body | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Ian Summers | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Mike Usher | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Ceri Thomas | Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad |
| **Ysgrifenyddiaeth** | |
| Adrian Crompton | Clerc y Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau, y tystion a’r cyhoedd i gyfarfod cyntaf tymor yr haf.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mark Isherwood a Carl Sargeant. Byddai David Melding a Tamsin Dunwoody-Kneafsey yn dirprwyo drostynt.

1.3 O ran eitem 6, datganodd Leighton Andrews fuddiant gan mai ei wraig yw Rheolwr Cenedlaethol BT yng Nghymru.

**Eitem 2: Rheoli'r Casgliadau yn Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru**

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Michael Houlihan, Cyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru ac Eurwyn Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru.

2.2 Atodir trawsgript gair am air yn Atodiad 1 y cofnodion hyn.

**Gweithredu**

Byddai Michael Houlihan yn darparu nodyn i'r Pwyllgor ar wariant blynyddol Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru ar farchnata ac ymchwil i ymwelwyr.

***Cafwyd egwyl o 11.32am tan 11.50am***

**Eitem 3: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar 'Ddigolledu Ffermwyr am Dwbercwlosis Mewn Gwartheg yng Nghymru'**

3.1 Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymateb yn gadarnhaol i adroddiad y Pwyllgor ac wedi derbyn yr 8 argymhelliad. Yn sgil y gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'r profion Twbercwlosis mewn Gwartheg sydd wedi cronni, cytunodd yr Archwilydd Cyffredinol i ddarparu adroddiad i'r Pwyllgor ar y camau a gymerwyd gan Lywodraeth y Cynulliad i roi'r argymhellion ar waith ymhen chwe mis.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor i dderbyn ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'w adroddiad.

**Pwynt gweithredu**

Byddai'r Archwilydd Cyffredinol yn darparu adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor ar roi'r argymhellion ar waith ymhen chwe mis.

**Eitem 4: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar 'Waredu Ysbyty Canolbarth Cymru'**

4.1 Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi derbyn 11 argymhelliad y Pwyllgor. Dywedodd y byddai'n cadw golwg ar y camau a gymerir gan Lywodraeth y Cynulliad i roi'r argymhellion ar waith.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor i dderbyn ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i’w adroddiad.

**Eitem 5: Costau Sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru**

5.1 Esboniodd yr Archwilydd Cyffredinol gefndir Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru) a Swyddfa Archwilio arfaethedig Cymru. Yn y Pwyllgor Archwilio ar 23 Hydref 2003 ystyriodd yr Aelodau femorandwm ar gostau tebygol sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru. Yr amcangyfrif diweddaraf o’r costau hyn ar sail y gwaith a wnaed a dyfynbrisiau dros dro oedd £987,000.

5.2. Dywedodd Ian Summers y byddai’r gost a ragwelid ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, £350,000, yn talu am brynu a gosod seilwaith TG newydd, rhwydweithio a thelathrebu ar gyfer y corff newydd yn ogystal â’r cymorth arbenigol y byddai ei angen.

5.3 Ni chyhoeddwyd tendr eto ar gyfer y contract i gyflunio’r system technoleg gwybodaeth a chyfathrebu newydd. Rhagwelid y byddai’r contract yn cynnwys cymal cosbi priodol.

5.4 Derbyniodd yr Aelodau’r esboniad a roddwyd dros y cynnydd yn yr amcangyfrif, ond nodwyd bod yr amcangyfrif gwreiddiol a roddwyd gan y Llywodraeth wedi dyblu.

5.5 Cymeradwyodd y Pwyllgor yr amcangyfrif o gostau sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru.

**Eitem 6: Papur i’w nodi - Gohebiaeth gan yr Ysgrifennydd Parhaol ynghylch yr argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar 'OSIRIS'**

6.1. Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

**Eitem 7: Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

7.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod ar 11 Mawrth.

**Penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 8.21 (vi).**

**SESIWN BREIFAT**

**Eitem 8: Ystyried y llythyr drafft gan y Cadeirydd at y Gweinidogion perthnasol, a chadeiryddion y pwyllgorau pwnc perthnasol ynghylch cydymffurfio â deddfwriaeth yn ymwneud ag anabledd mewn sefydliadau addysg bellach**

8.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y llythyr drafft.

## Eitem 9: Ystyried adroddiad drafft y Pwyllgor ar 'Adnewyddu Tai y Sector Preifat yng Nghymru'

9.1 Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad drafft.